



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Hydref 2016 am 6.00yh
yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 October 2016 at 6.00pm
at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/Councillors** Clive Davies (**yn y gadair/in the chair**),
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Ken Edwards, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles,
Akira Shimazaki.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, bawb, yn cynnwys gohebwyr y wasg, i'r cyfarfod. Cyfeiriodd at lwyddiant Gŵyl y Cynhaeaf a gynhaliwyd o 28 Medi hyd 1 Hydref mewn gwahanol leoliadau oddeutu'r dref. Cytunwyd anfon llythyr i longyfarch swyddogion yr ŵyl ar eu hymdrechion i goffáu llwyddiant y Prifardd Dic Jones ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan yn 1966 gyda'i awdl "Cynhaeaf". Cafodd y Maer yr anrhydedd o gyflwyno tarian y cyngor i arweinydd Côr Lleisiau Llannerch o Sir Fôn mewn cyngerdd yng nghapel Blaenannerch oedd yn dathlu pum mlynedd ar hugain ers sefydlu Côr Merched Bro Nest. Mae'r trefniadau i ddathlu'r Nadolig yn mynd yn eu blaen gyda Phartneriaeth Canol y Dref wedi sicrhau grant sylweddol i'w cynnal; mae'r trefniadau yng ngofal Theatr Byd Bychan tan y pennawd "Aberteifi Creadigol". Y Cyng. Catrin Miles yw cynrychiolydd cyngor y dref ar bwylgor y bartneriaeth. Bydd y pythefnos o ddathlu yn dechrau ar 3 Rhagfyr drwy gynnal y goleuadau Nadolig. Bydd Theatr Byd Bychan yn paratoi ar gyfer gorymdaith y lanternau gyda gweithdai yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd. Ychwanegodd y Maer y byddai'r digwyddiad yn gyfle i arddangos siopau'r dref a hanes a thraddodiadau gorau'r ardal.

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed everyone to the meeting, including local press officers. He referred to the success of *Gŵyl y Cynhaeaf* which was held at various locations throughout the town from 28 September to 1 October. It was agreed to forward a letter of congratulations to the officers of the festival committee on their efforts to commemorate the success of y Prifardd Dic Jones winning the National Eisteddfod chair at Aberafan in 1966 with his masterpiece "Cynhaeaf". The Mayor was privileged to present the town shield to the conductor of Côr Lleisiau Llannerch from Anglesey at the recent concert held in Blaenannerch Chapel to celebrate the 25 years since the formation of Côr Merched Bro Nest. Preparations are continuing regarding the Christmas celebrations with the Town Centre Partnership having secured substantial grant aid from Visit Wales; Small World Theatre (Aberteifi Creadigol / Creative Cardigan) is the prime mover with Cllr Catrin Miles the town council representative on the partnership committee. The fortnight celebration commences on 3 December with the switching on of the Christmas lights. The Small World Theatre will also run the public lantern workshops during October and November. The Mayor added that the event will allow Cardigan to showcase the shops and the unique cultural and historic attractions of the area.

2. Cyflwyniad byr gan y Rhingyll Dros Dro Delme Jones.

Short Presentation by T/PS Delme Jones.

Croesawodd y Maer y Rhingyll dros dro Delme Jones a'r Heddwas Sam Phillips i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i annerch y Cyngor. Mae'r Rhingyll yn gyfrifol am ardal eang sydd yn ymestyn o Abergwaun hyd at Gastell Newydd Emlyn i Aberteifi, ardal oedd tan oruchwyliaeth PS Alison Rees hyd iddi ymddeol o'r heddlu yn ddiweddar. Ben Cole a Shan Clarke sydd yn gwasanaethu fel PCSOs y dref. Pwysleisiwyd ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gor-ddefnydd o alcohol a chyffuriau fel prif ofidiau'r gymuned. Mae fandaliaeth ar geir yn Felinban a Rhes Gloster wedi ymdawelu dros dro. Pwysleisiodd y Rhingyll bod cyfarfodydd

PACT a gynhelir bob tri mis yn fuddiol iawn i'r gymuned, a dylai preswylwyr fanteisio arnynt. Mae'r cynllun Gwarchod Cymdogaeth yn bwysicach heddiw na fu erioed gan fod y cyhoedd yn dibynnu ar gyfathrebu doeth rhyngddynt a'r heddlu sy'n eu gwasanaethu. Mae'r dechnoleg newydd yn gymorth, a gellir cofrestru gyda Negeseuon Cymunedol Dyfed-Powys er mwyn derbyn negeseuon am ddim gan swyddogion heddlu lleol a phartneriaid awdurdod lleol trwy negeseuon testun neu e-bost. Gellir mabwysiadu'r cynllun Gwarchod Cyflymdra Cymunedol yn ogystal. Codwyd y materion canlynol gan aelodau'r Cyngor: parcio ar y palmant ar Ffordd Aberystwyth a Rhiw Grosvenor, cyflymdra ceir ar amryw ffyrdd yn y dref, a fandaliaeth i doiledau Lôn y Moch unwaith eto sydd yn peryglu'r gwasanaeth pwysig hwn a ddarparwyd gan gwmni 4CG. Cyngorwyd aelodau i godi'r mater o osod camerau TCC yn y dref a darpariaeth gwasanaeth cyfathrebu 101 gyda Chomisynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys pan fydd ar ei ymweliad â'r Cyngor ym mis Tachwedd.

Dosbarthwyd taflenni yn ymwneud â Gwarchod Cymuned a gwybodaeth arall gan yr Heddwys Phillips ar ddiwedd y cyflwyniad. Diolchodd y Maer i'r ddau swyddog am eu cyflwyniad pwrpasol a dymunodd yn dda iddynt yn eu gyrfaedd.

The Mayor welcomed T/PS Delme Jones and PC Sam Phillips to the meeting. The officers introduced themselves to members and T/PS Jones proceeded to outline the concerns experienced by members of the community in Cardigan and district. His remit covers the area from Fishguard to Newcastle Emlyn and Cardigan, areas previously marshalled by PS Alison Rees who recently retired from the force. The local PCSOs are presently Ben Cole and Shan Clarke. The main concerns expressed were anti-social behaviour with alcohol and drugs highlighted as being damaging. Vandalism to vehicles in the Felinban and Gloster Row areas had now lessened. The T/PS stressed that the PACT meetings held every three months were beneficial and residents should capitalise on their effectiveness. The Neighbourhood Watch scheme is available and is more relevant now than ever. The community relies more than ever on a close relationship between the public and the police. Modern technology also assists in communication, and the Dyfed-Powys Community Messaging service can be obtained by downloading the free smartphone app. The Community Speed Watch is another service which can be implemented. Members raised the following concerns: pavement parking on Aberystwyth Road and Grosvenor Hill, the exceeding of speed limits at various highways into town, and the regular vandalism of the Chancery Lane toilets which threatens and compromises the service provided by 4CG due to the behaviour of the few. Members were advised to raise the matter of CCTV cameras and the 101 service with the Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner when he visits the council on 1st November. At the end of the visit PC Phillips distributed the "Neighbourhood Watch Members' Guide" and other informative literature to members. Cllr Davies thanked both members of the force for their presence and useful information and wished them a successful future in their chosen profession.

3. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng. / Cllrs Mark Cole (*gwyliau/holidays*), Jane Roche (*materion teuluol/family commitments*), Melfydd George (*anhwylddeb/indisposed*)

4. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	<i>Eitem/Item 10[148] North Cardigan Action & Support Group</i> <i>Eitem/Item 15 (Grantiau/Grants:</i> <i>Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Memorial Pool and Hall</i>
-----------------------------	--

5. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Medi.**

Confirmation of Minutes of 6 September Council Meeting.

Tud. 1146, eitem 10(a)(iv): Yr eitem hwn i'w drosglwyddo i adroddiad y Cyng. Catrin Miles.

Tud. 1147, eitem 10(c)(v): "On the building roof" i'w hepgor.

Tud. 1146, eitem 10(a)(iii): Mae angen hepgor "Tweedy" yn enw cyn-Faer Tref Aberystwyth.

Page 1147, item 10(a)(iv): This item to be transferred to Cllr Catrin Miles' report.

Page 1147, item 10(c)(v): "On the building roof" to be deleted.

Page 1147, item 10(a)(iii): The name "Tweedy" to be deleted in the name of the Aberystwyth Town past Mayor.

Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cofnodion yn gywir.

With the above amendments, Cllr Graham Evans proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Dai Brabrook.

- 6. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Medi (Mewn Pwyllgor).**
Confirmation of Minutes of 6 September Council Meeting (In Committee).
Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y cofnodion yn gywir.
Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.
- 7. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**
Tud. 1145, eitem 6: Gohiriwyd cyfarfod y Maes Sgrialu ar 14 Medi; aildrefnir cyn diwedd y flwyddyn.
Tud. 1147, eitem 10(c)(iii): Diolchodd y Cyng. Catrin Miles i swyddog goleuadau strydoedd y cyngor sir am ei ymateb prydlon.
Tud. 1147, eitem 10(c)(v): Mae dyddiad i arwyddo'r ddeiseb ar fin cau (10/10/16).
Tud. 1147, eitem 10(c)(viii): Mae'n dda gweld bod y draeniau yn y dref wedi eu glanhau gan y cyngor sir.
Tud. 1148, eitem 11[105]: Gofynnodd y clerc am yr hawl i ateb e-bost Mr Broughton ynglŷn â threfniadau Sul y Cadoediad. Cafodd ganiatâd i wneud hynny ar ran y cyngor.
Tud. 1149, eitem 11[111]: Wedi trafod â Ms Sarah Wright, dywedodd y Cyng. Adams-Lewis y byddai hi yn cysylltu gyda pherchennog y ceffylau sydd yn pori ar y maes ger Brynhafod.
Tud. 1151, eitem 12 (Menter Aberteifi): Dywedodd y Maer ei fod wedi cysylltu â swyddog Commercial Christmas sydd bellach wedi addo gosod y goleuadau erbyn diwedd mis Hydref/dechrau Tachwedd.
Page 1145, item 6: The Skateboard Park meeting to be held on 14 September had been postponed; it will be re-arranged before Christmas.
Page 1147, item 10(c)(iii): Cllr Catrin Miles thanked the street lights officer of the county council for his prompt response.
Page 1147, item 10(c)(v): The closing date to sign the petition is 10/10/16.
Page 1147, item 10(c)(viii): It is pleasing to note that the storm water drains in the vicinity had been cleaned by the county council.
Page 1148, item 11[105]: The clerk sought permission to respond to Mr Broughton's e-mail regarding the Remembrance Sunday arrangements. He received permission to respond on behalf of the council.
Page 1149, item 11[111]: Cllr Adams-Lewis stated that Ms Sarah Wright would contact the owner of the horses grazing in the meadow adjacent to Brynhafod.
Page 1151, item 12 (Menter Aberteifi): The Mayor stated that he had contacted the officer from Commercial Christmas who promised to reinstate the lights by the end of October/beginning of November.
- 8. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**
Activities of the Mayor. Dates for the diary.
Dosbarthwyd dyddiadur mis Medi'r Maer i bob aelod yn y cyfarfod.
The Mayor's diary for the month of September was distributed to all members at the meeting.
- 9. Cynllunio / Planning**
Nid oedd materion cynllunio i'w trafod. There were no planning matters to be discussed.

10. Materion ariannol / Financial matters

(a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/9/16	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor/ Rent of Council Office (Medi/September). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (6 & 20 Medi/September)	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	Band Lydan (Hydref) / Broadband (October)	A9	4302	£50.00 (0.00)
		A20	4302	£20.00 (0.00)
30/9/16	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Medi/Sept.)	A3	4303	£748.90 (0.00)
22/9/16	Cyngor Sir Ceredigion: Cau'r ffordd/Road closure (Sul y Cadoediad/Remembrance Sunday)	A23	4304	£35.00 (0.00)

22/9/16	Cyngor Sir Ceredigion: <i>Deddf Hapchwarae</i> 2005 Gambling Act	A22	4305	£20.00 (0.00)
14/9/16	Insignia Swallows: <i>Cyfarpar swyddfa</i> /Office equipment	A7	4306	£28.38 (4.73)
7/9/16	Capel Bethania: <i>Hurio'r festri (Cyfarfod Sul y Cadoediad)</i> Hire of vestry for Remembrance Sunday meeting	A23	4307	£25.00 (0.00)
31/8/16	Telemat: <i>Cyfrifiadur newydd</i> . New computer	A17	4308	£928.78 (154.80)
1/10/16	Vision ICT: <i>Cynnal y wefan</i> / Hosting of website (Rhag./Dec. 2016 - Tach./Nov. 2017)	C8	4309	£252.00 (42.00)
30/9/16	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> /Simultaneous translation (6/9/16)	A18	4310	£119.40 (19.90)
4/10/16	HMRC: PAYE £561.60, Class 1 NIC £107.67 (<i>Gorff., Awst, Medi</i> – July, August, Sept. 2016)	A16	4311	£669.27 (0.00)
30/9/16	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson (<i>Medi/September</i>) <i>Gosod drws</i> / Hanging door at Multi-purpose play area	A19 C3	4312	£448.80 (74.80) £30.00 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.

CLlr John Adams-Lewis proposed that the above bills be paid; this was seconded by CLlr Dai Brabrook.

Derbyniadau/Receipts:

9/8/16	<i>Llog y Banc</i> / Bank interest	£2.49
20/9/16	<i>Cantref (hurio'r cyfarpar cyfieithu)</i> /hire of translating equipment	£15.00

(b) Adroddiad Ariannol Chwarterol y Cyngor / Council's Quarterly Financial Report.

Cynigiodd y Cyng. Ken Edwards bod yr adroddiad chwarterol ariannol wedi ei gymeradwyo gan y cyngor; eiliwyd gan y Cyng. Akira Shimazaki.

CLlr Ken Edwards proposed that the quarterly financial report was approved by council; this was seconded by CLlr Akira Shimazaki.

(c) Cadarnhau dyddiad archwiliad ariannol mewnol gan gynghorwyr.

Confirmation of date of internal financial paper trail by councillors.

Enwebwyd y Cyng. Akira Shimazaki a'r Cyng. Melfydd George i archwilio'r cyfrifon cyn diwedd mis Hydref.

CLlr Akira Shimazaki and CLlr Melfydd George were nominated to paper-trail the accounts before the end of October.

11. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Dywedodd y Cyng. Miles bod cyfarfod "Hiraeth Hope" i'w gynnal gan y cyngor sir ar 5/10/16 yn Theatr Byd Bychan. Gwneir trefniadau yno i gartrefu tri theulu o ffoaduriaid o wlad Syria yn ne Ceredigion.**

(b) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) **Yn dilyn pum mlynedd o frwydro, mae'r Cyng. Cole yn bles i ddatgan y bydd cwmni Tai Ceredigion yn ailagor llwybr Bro Teifi/Rhos-y-dre y mis hwn a hynny i safon uchel. Mynegodd y Cyng. Cole ei ddiolch i gyngor y dref am y gefnogaeth yn yr achos yma oddi ar 2011.**
- (ii) **Fel a adroddwyd yng nghyfarfod mis Medi, cynhelir cyfarfod rhwng preswylwyr Stryd Wiliam a swyddogion Cyngor Sir Ceredigion yn ystod wythnos olaf mis Hydref.**
- (iii) **Dywedodd y Cyng. Cole bod Mrs Wendy Morris newydd ddychwelyd o'i thaith i Awstralia; bydd ef yn gobeithio ei chyfarfod ym mis Tachwedd i gefnogi ailgychwyn y Carnifal yn y dref.**
- Ychwanegodd y Cyng. Clive Davies bod grantiau ar gael a bod grwpiau yn dechrau dangos diddordeb i gynorthwyo gyda'r trefniadau.**

(c) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Mae'r trefniadau i gynnal Ffair Aberteifi wedi cyrraedd a bydd y stondinau eleni ar ochr ddwyreiniol y dref. Cynhelir yr agoriad swyddogol ar 10 Tachwedd am 1.30 o'r gloch. Diolch i garedigrwydd Mr Vernon Studt, bydd darpariaeth i blant tan anfantais ar nos Fercher, 9 Tachwedd.**

- (ii) Mae Cabinet y cyngor sir wedi caniatáu parcio di-dâl ar Sadyrnau 10, 17 a 24 Rhagfyr.
- (iii) Yn dilyn adroddiad yn y wasg leol bod Caws Cenarth yn allforio ei gynnyrch i Siapan, ychwanegodd y Cyng. Adams-Lewis mai'r Cyng. Akira Shimazaki oedd yn bennaf gyfrifol am gynnau'r trefniadau yma.
- (iv) Atgoffwyd aelodau bod 15 Hydref eleni yn ddiwrnod "Shw mae" yng Nghymru.
- (v) Gan fod Mrs Gwyneth Jones wedi ymddiswyddo fel prif swyddog Age Cymru Ceredigion yn Aberteifi, gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o ddiolch iddi am ei gwasanaeth arbennig dros yr henoed yn Aberteifi a'r cylch.

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles announced that a meeting, "Hiraeth Hope", is to be held by the county council at the Small World Theatre on 5 October to re-settle three refugee families from Syria in the south of Ceredigion.

(b) Cllr Mark Cole:

- (i) Cllr Cole reported that after 5 long years, the Bro Teifi/Rhos-y-dre footpath has finally been re-opened this month by Tai Ceredigion and to a high standard. Cllr Cole expressed his gratitude to the town council for its unwavering support in this case since 2011.
- (ii) Cllr Cole reported that the meeting between residents in William Street and officers of Ceredigion County Council, as reported in the September meeting, will take place in the final week of October.
- (iii) Cllr Cole noted that Mrs Wendy Morris has newly returned from a trip to Australia and he hopes that she will visit Cardigan by the end of November to support moves to re-start Cardigan Carnival.
Cllr Clive Davies added that grants were available and that some groups were displaying interest in assisting with organising the event.

(c) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The arrangements to hold Cardigan Fair have been received and the stalls this year will be located on the eastern side of the street. The official opening will be held at 1.30pm on 10 November. Gratitude is extended to Mr Vernon Studt again for offering free rides to the disabled on Wednesday, 9 November.
- (ii) The county council Cabinet has offered free parking in Cardigan on 10, 17 and 24 December.
- (iii) Following the press report that Caws Cenarth was now exporting its produce to Japan, Cllr Adams-Lewis stated that Cllr Akira Shimzaki pioneered the programme by association.
- (iv) Members were reminded that 15 October would be "Shw mae" day throughout Wales.
- (v) As Mrs Gwyneth Jones has now retired from her role as joint chief officer of Age Cymru Ceredigion, Cllr Adams-Lewis asked the council to forward a letter of appreciation to Mrs Jones for her many years of excellent service to the elderly within our community.

12. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
124	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: (Gorymdaith Sul y Cofio / Remembrance Day Parade, 13/11/16)</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau. Copy forwarded to members.</i>
125	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: (Williams Terrace, Napier Street, 24/10/16 - 28/10/16)</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau. Copy forwarded to members.</i>
126	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: (Napier Gardens, Rhos-y-dre, Maes-yr-haf, Maeshenffordd, 31/10/16 - 4/11/16)</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau. Copy forwarded to members.</i>
127	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: (Ffair Aberteifi / Cardigan Fair, 10/11/16)</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau. Copy forwarded to members.</i>
128	CSC / CCC (Kevin Kirkland): <i>Hysbyseb am Restr Gymeradwy ar gyfer darparu gwasanaethau atodol i glirio eira / Advert for an Approved list for the provision of supplementary snow-clearing services, 2016-17</i>	<i>Mae hysbyseb wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd. Advert has been displayed on notice board.</i>

129	CSC / CCC (Diane Davies): <i>Poster "Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia".</i> Poster: "Dementia Supportive Communities"	<i>Mae posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Posters have been displayed on notice board. <i>Roedd y Cynghorwyr Clive Davies, John Adams-Lewis a Catrin Miles wedi mynychu'r digwyddiad.</i> The above-named councillors attended the event.
130	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Copi o sticer / Copy of sticker to be displayed on the new scooter/cycle shelters installed at Ysgol Gynradd Aberteifi</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members (13/9/16).
131	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Cyfarfod Ymgynghorol 2016, Ffestri'r Tabernacl.</i> Consultative Meeting, Tabernacl vestry, 23/11/16, 5.30pm.	<i>Cytunwyd trafod ffurf y cyfarfod ar 1 Tachwedd.</i> It was agreed to discuss the format of the meeting at the November monthly meeting.
132	Mary Smithers: <i>E-bost yn pryderu am ddyfodol y llyfrgell.</i> E-mail voicing concerns regarding the future of the library.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
133	Eluned Morgan, AC/AM: <i>Llythyr o gyflwyniad.</i> A letter of introduction.	<i>Cytunodd y Maer lanw'r arolwg.</i> The Mayor agreed to complete the survey.
134	WYG Environment Planning Transport Ltd.: <i>Hysbysiad Cyhoedduswydd ac Ymgynghori cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio dan erthygl 2D – Cynnig i ddatblygu gweithrediadau peirianeg a gwaith adfer i'r llwyfandir presennol er mwyn galluogi datblygu yn y dyfodol ar dir Bath House.</i> Publicity and consultation before applying for planning permission notice under article 2D. Publicity and consultation of engineering operations and remedial work to the existing plateau to enable future development at land at Bath House.	<i>Rhagor o wybodaeth ar-lein / More information on-line:</i> http://www.wyg.com/bath-house-farm <i>Disgwylir ymateb erbyn 31/10/16.</i> Response expected by 31/10/16. <i>Cytunodd y Cyng. Dai Brabrook ymateb ar-lein ar ran y Cyngor.</i> Cllr Dai Brabrook agreed to respond on-line on behalf of the council.
135	<i>Comisiwn Ffiniau i Gymru: "Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Cychwynnol".</i> Boundary Commission for Wales: "The 2018 Review of Parliamentary Constituencies in Wales – Initial Proposals"	<i>Mae'r wybodaeth ar gael ar y safle we:</i> Information is available on the following website: www.bcomm-wales.gov.uk . <i>Cadarnhawyd y bydd y cyngor sir yn ymateb i'r cynigion.</i> It was confirmed that the county council would respond to the proposals.
136	Mrs Philippa Gould, Coed Ceinach, Brynhafod: <i>Ymateb i lythyr y Cyngor.</i> Response to council letter.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
137	Mrs Margaret Daniel (Côr Merched Bro Nest): <i>E-bost o ddiolch am gyflwyno'r darian.</i> E-mail of appreciation for the presentation of town shield.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
138	Mark Williams AS / MP: <i>Llythyr ynglŷn â thoiledau Neuadd y Dref.</i> Letter on behalf of constituent concerned at the non-availability of the Guildhall toilets for the use of the public.	<i>Cytunwyd anfon copi o'r llythyr ymlaen at Menter Aberteifi.</i> It was agreed to forward a copy of the letter to Menter Aberteifi.
139	Canolfan Plant Jig-So Children's Centre: <i>Cylchlythyr Haf 2016.</i> Summer 2016 Newsletter	<i>Mae copi ar gael yn swyddfa'r clerc.</i> Copy available at the clerk's office.
140	Soroptimist International Cardigan & District: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i ginio:</i> <i>Gwesty'r Cliff / Cliff Hotel, 16/10/16</i>	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor.
141	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys Aberteifi /</i> Cardigan Barley Saturday Show: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i ginio:</i> <i>Gwesty'r Cliff / Cliff Hotel, 14/10/16.</i>	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor.
142	<i>Clwb Criced Llechryd Cricket Club:</i> <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i ginio:</i> Flat Rock 25/9/16.	<i>Mae copi wedi ei anfon at y Maer.</i> A copy has been forwarded to the Mayor.
143	<i>Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion /</i> Friends of Ceredigion Museum: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support	<i>Mae'r cais wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> Application has been discussed at the September Grants sub-committee.

144	<i>Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Memorial Pool & Hall: Cais am gymorth ariannol. Application for financial support</i>	<i>Mae'r cais wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi. Application has been discussed at the September Grants sub-committee.</i>
145	<i>Cyngor Ar Bopeth / Citizens' Advice Bureau: Cais am gymorth ariannol. Application for financial support</i>	<i>Mae'r cais wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi. Application has been discussed at the September Grants sub-committee.</i>
146	<i>Canolfan Plant Jig-so Children's Centre: Cais am gymorth ariannol. Application for financial support</i>	<i>Mae'r cais wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi. Application has been discussed at the September Grants sub-committee.</i>
147	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Medi. Handyperson's September report.</i>	<i>I'w drafod tan eitem 14. To be discussed under item 14.</i>
148	<i>North Cardigan Action & Support Group: Llythyr yn gofyn am gefnogaeth Cyngor Tref Aberteifi i ailagor man chwarae Maesglas. Letter requesting the support of Cardigan Town Council to re-open the Maesglas play area.</i>	<i>Cytunwyd anfon llythyr at gwmni Tai Ceredigion yn gofyn iddynt ddychwelyd y cyfarpar at anghenion plant yn y maes chwarae ac i'w gwahodd i gyd-gyfarfod â chyngor y dref a'r grŵp cynorthwyol. It was agreed to forward a letter to Tai Ceredigion requesting the return of the play equipment and to request a meeting with the town council and the support group.</i>
149	<i>BT: Ymgynghoriad ar waredu ffonau talu BT. BT payphone removal consultation. Erbyn / by: 27/10/16.</i>	<i>Nid oes ciosg ffôn ar y safle a gofrestrwyd gan BT ar Heol y Ferwig. The council is bemused that a payphone is registered as being located in Ferwig Road.</i>

Ann Jones: *Adain Cau Ffyrdd / Road Closure Section*
Bronwen Morgan: *Prif Weithredwr / Chief Executive.*
Diane Davies: *Swyddog Lles Cymunedol ac Ymgysylltu 50+.
Community Wellbeing and 50+ Engagement Officer.*
Gari Jones: *Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy*
Kevin Kirkland: *Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd Ymatebol / Highway Maintenance Reactive Manager*

13. Goleuadau'r Strydoedd / Street Lights

Gweler eitem 14. See item 14.

14. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 20 Medi.

Confirmation of 20 September Sub-committee Minutes.

Cynigiodd y Cyng. Gwynfi Jenkins bod cofnodion 20 Medi yn rhai cywir; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.

Cllr Gwynfi Jenkins proposed that the minutes of 20 September be accepted as correct; seconded by Cllr Dai Brabrook.

Materion yn codi Matters arising:

Tud. 1155 (Goleuadau Nadolig): Mae swyddog y cwmni Commercial Christmas wedi cysylltu yn uniongyrchol â swyddog Menter Aberteifi ynglŷn â chyflenwad trydan i'r system. Cytunwyd bod y cyngor yn prynu rhagor o oleuadau Nadolig i'w gosod tu allan i Neuadd y Dref ar yr amod bod y cwmni yn gorffen y gwaith ar y goleuadau yn gyffredinol ac yn cyflwyno tystysgrif trydan i'r cyngor.

Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.

Tud. 1156 (Goleuadau'r Strydoedd): Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis ei fod yn disgwyl ymateb oddi wrth Mr Marc Chapple ynglŷn â goleuadau Grove Park. Cytunwyd bod y clerc yn anfon llythron at ddau gwmni yn gofyn am bris i osod un golau newydd ar Lôn Cnwcydintir. Yn yr un modd, i ysgrifennu at Mr Simon Bray yn gofyn am gadarnhad o berchenogaeth y golau tu ôl i 122/125 Maesglas.

Page 1155 (*Christmas lights*): An officer with Commercial Christmas has been in direct contact with a Menter Aberteifi officer regarding the supply of electricity to the system. It was agreed to purchase additional items of Christmas lights to be placed outside the Guildhall on the condition that the lights are complete and that the electrical certificate is received. The above was proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr Dai Brabrook.

Page 1156 (*Street Lights*): Cllr Adams-Lewis stated that he was still awaiting a response from Mr Marc Chapple regarding the Grove Park street lights. It was agreed that the clerk requests two companies to supply quotations to erect one light column on the Cnwycydintir Lane, and to ask Mr Simon Bray for confirmation regarding the ownership of the 122/125 Maesglas light.

Bachan Deche: Bydd y Bachan Deche yn gobeithio achub rhai o'r bylbiau a blannwyd gan y cyngor sir yn ystod yr haf. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyron o ddiolch i gwmni CTP a Mr Mark Davies (MD Recycling) am gyflawni gwaith di-dâl ym man chwarae'r plant ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed.

Handyperson: The Handyperson will clear the bulbs and flowers from the planters soon and hopes to salvage some of the bulbs and plants. The clerk was asked to forward letters of appreciation to CTP and Mr Mark Davies (MD Recycling) for providing unpaid services on the King George 5th Playing Field children's play area.

15. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145)

Grant applications: Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972).

Elusen Amaethyddol Royal Agricultural Benevolent Institution		Dim / Nil
RAY Ceredigion		Dim / Nil
Shelter Cymru	✓	£100
Dyfed & Glamorgan Army Cadet Force		Dim / Nil
Theatr Gydweithredol Troedyrhiw Cyf.		Dim / Nil
Theatr Felinfach	✓	Dim / Nil
Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion / Friends of Ceredigion Museum		Dim / Nil
Cymorth Ar Bopeth / Citizens' Advice Bureau (section 142)	✓	£2,000
Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Memorial Pool and Hall	✓	£2,000
Canolfan Plant Jig-So Children's Centre	✓	£250

Dynoda ✓ bod y cyfrifon wedi eu derbyn. ✓ denotes that the accounts have been received.

Mae'r cyngor bellach yn pwysleisio bod rhaid derbyn cyfrifon diweddaraf yr elusen/ cymdeithas/clwb cyn ystyried trafod y cais. Anfonir ffurflen gais swyddogol ymlaen at ymgeiswyr.

The council stresses that the latest accounts of the charity/society/club have to be received before considering applications. An official application form will be forwarded to all applicants.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod y grantiau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Ken Edwards.

Cllr John Adams-Lewis proposed that the above grants be paid; seconded by Cllr Ken Edwards.

16. Personél / Personnel.

17. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

18. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the Mayor's discretion.

- (a) **Caiff Cymdeithas Aberteifi Society ei lansio nos Fercher, 19 Hydref yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr am 7.00 o'r gloch. Bydd Canon Seamus Cunnane yn darlithio ar "Aberteifi Canoloesol". Cytunwyd bod tudalen we newydd yn cael ei chreu i'w chynnwys ar safle we'r Cyngor.**

Cymdeithas Aberteifi Society will be launched at the Fisherman's Rest on Wednesday, 19 October at 7.00pm. Canon Seamus Cunnane will give a lecture on "Medieval Cardigan". It was agreed that the Society be allowed to create a web page to be included on the town council website.

- (b) **Mae angen anfon gwybodaeth at Cyfoeth Naturiol Cymru am beryg y tyfiant coed a phlanhigion sydd yn amharu ar lifiant dŵr nant y Mwldan yn ymyl Theatr Mwldan.**

It was agreed to inform Natural Resources Wales of the potential danger to the bridge caused by the trees and growth restricting water flow of the Mwldan stream alongside Theatr Mwldan.

- (c) **Mae'r hysbysfwrdd map ym maes parcio Sgwâr Caegwyrdd mewn cyflwr gwael. Cytunwyd i'r Cyng. Graham Evans ei dynnu oddi yno.**

The interpretation board located in the Greenfield Square car park is in a poor condition. It was agreed that Cllr Graham Evans be allowed to remove the board.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.32yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.32pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date